**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** **7fed TACHWEDD 2018**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS HYDREF 2018**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. ARDAL ARFAETHEDIG GWELLA BUSNES Y RHYL - PLEIDLAIS**

Penderfynu ar bleidlais y Cyngor Tref ar yr uchod (papurau'n amgaeëdig).

**5. AROLWG O'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Penderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**6. EITEMAU GAN AELODAU**

(i) Y Cynghorydd A. R. James – Mynegi pryderon ynglŷn â chyflwr stondinau hysbysebu penodol ar gyfer Theatr y Pafiliwn y Rhyl.

(ii) Y Cynghorydd A. J. Rutherford – Mynegi pryderon ynglŷn â nifer y damweiniau traffig yn y cyffyrdd canlynol:

- Prince Edward Avenue/Vale Road
- Prince Edward Avenue/Grange Road
- Vale Road/Marsh Road

(iii) Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine – Gofyn am gefnogaeth i'r Cyngor wahodd cynrychiolydd o Wasanaethau'r Amgylchedd Cyngor Sir Ddinbych i drafod cynigion ar gyfer casgliadau gwastraff yn y Rhyl yn y dyfodol.

**7. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau

**8. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**9. COFNODION YR IS-BWYLLGOR DIGWYDDIADAU DINESIG A CHYMDEITHASOL**

Derbyn cofnodion cyfrinachol (copi'n amgaeëdig) yr Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol a phenderfynu ar yr argymhellion ynddynt.

**10. PRYDERON CYNGHORYDD**

Derbyn adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) mewn perthynas â phryderon a fynegwyd gan aelod o'r Cyngor.

**11. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.